



Ysgolion Pentreuchaf

95. Polisi Gweithgarwch All-Gwricwlaidd

Nod

Cynnig cynifer o weithgareddau gwerthfawr posibl er mwyn cyfoethogi ansawdd addysg a bywyd cyffredinol y plentyn ac ehangu ei brofiadau.

Amcanion

1. Sicrhau cyd-weithrediad a chefnogaeth y rhieni gyda'r holl weithgareddau ychwanegol a drefnir cyn belled ag y bo hyn yn bosib.
2. Trefnu ymweliadau, gwaith maes megis astudiaethau Daearyddol, Cyfeiriannu a.y.y.b. yr Urdd, penwythnosau yng Ngwersyll Glanllyn, gwasanaethau mewn capeli lleol, gwersi offerynnol, adloniant i'r henoed a.y.y.b. Hefyd, pan fo'n ymarferol, ceisio trefnu ymweliadau pellach i roi syniad i'r plant o fywyd y tu allan i'w milltir sgwâr.

Canllawiau

1. Bydd yr amrywiaeth o weithgareddau yn agored i holl ddisgyblion yr ysgol sydd, ym marn y Pennaeth yn aeddfed ac yn barod i gymryd rhan ynddynt. Yn aml, bydd hyn yn golygu plant CA2.
2. Trefnir gwahanol 'glybiau' megis cyfarfodydd o aelodau'r Urdd, Campau'r Ddraig, Clwb Garddio a.y.y.b. Bydd rhai yn cael eu rhedeg gan staff yr ysgol a rhai gan rieni a ffrindiau i'r ysgol. Trefnir y gweithgareddau yma i geisio datblygu unigolyn i'w lawn botensial, datblygu ymwybyddiaeth cymdeithasol, cyfrifoldebau grwp ac empathi ac i ymestyn talentau unigol a diddordebau.
3. Ni all yr ysgol dderbyn cyfrifoldeb am oruchwylio plant ar derfyn sesiynau (megis yr Urdd) a gofynnir i rieni/gwarcheidwaid sicrhau eu bod yn gwneud trefniadau i hebrwng eu plant adref.
4. Rhaid cofio ein bod yn dibynu llawer ar gydweithrediad ac ymroddiad y staff (dysgu ac atodol) - dylai ethos ac amcanion yr ysgol greu ynddynt ymdeimlad o fod yn rhan o'r 'teulu' a rhoi iddynt yr awydd i gyfoethogi bywydau'r plant - ni ellir eu gorfodi.
5. Bydd plant o wahanol oedrannau yn ymuno i rannu syniadau, sgiliau a phrofiadau. Maent yn cyfarfod gyda disgyblion nad ydynt o angenrheidrwydd gyda'u cyfoedion, sydd yn gymorth i ehangu eu gornelion cymdeithasol. Rhydd hyn hefyd gyfleoedd i blant ddatblygu perthynas mwy anffurfiol gyda staff yr ysgol, rhai nad ydynt yn eu gweld o ddydd i ddydd yn yr ysgol.
6. Gall plant sy'n cael anhawster gyda gwaith academiaidd brofi llwyddiant mewn meysydd eraill.
7. Bydd llawer o gyfleoedd i ddatblygu sgiliau cymdeithasol.
8. Yn anaml iawn, bydd yn rhaid diddymu cyfarfod, ond fel arfer bydd athrawes arall yn medru bod gyda'r plant os oes salwch a.y.y.b. Os oes rhaid diddymu ar fyr rybudd, byddwn yn sicrhau fod rhiant pob plentyn yn gwybod a bod rhieni plant sy'n byw yn bell yn dod i'w cyrchu adref.
9. Bydd rhai ymweliadau a gweithgareddau yn berthnasol i blant un ysgol yn unig, ond gwelid budd mawr i'r plant a'r staff o drefnu gweithgareddau ar y cyd.

Casgliad

Oherwydd nad yw'n bosib i bob teulu gynnig rhai o brofiadau gwerthfawr bywyd i'w plant, teimlwn ei bod yn gyfrifoldeb arnom ni i gyfoethogi eu haddysg a'u gweledigaeth ac ehangu eu gornelion, gan, yn y pen draw, obeithio rhoi modd iddynt fwynhau a deall bywyd yn well.

Adolygir: Chwefror 2017

Arwyddwyd: _____, Cadeirydd y Llywodraethwyr

Dyddiad: _____